Talent

Mae gan bawb ei dalent
Beth yw dy dalent di?
Dawnsio?
Clocsio
Neu gyfri heibio tri?

Neidio?
Nofio
Neu ddarllen ar ben dy hun?
Canu?
Rhannu
Neu'n dda am dynnu llun?

Beth yw dy dalent di?
Ie!

Mae gan bawb ei dalent
Beth yw dy dalent di?
Bowlio?
Coginio
Neu chwarae gyda'r ci?

Mae gan bawb ei dalent
Beth yw fy nhalent i?
Chwarae gyda ffrindiau a mwynhau dy gwmni di!

Dyna yw fy nhalent i!
Ie!

Geirfa / Vocabulary: Gweithgareddau/ Activities:

dawnsio	(dance / dancing)
clocsio	(clog dancing)
gyfri (cyfri)	(count / counting)
neidio	(jump / jumping)
nofio	(swim / swimming)
darllen)	(read / reading)
canu	(sing / singing)
rhannu	(share / sharing / dividing)
dynnu (tynnu) llun	(draw / drawing)
bowlio	(bowl / bowling)
coginio	(cook / cooking)
chwarae gyda'r ci	(play/playing with the dog)
chwarae gyda ffrindiau	(play/playing with friends)

Geirfa gyffredinol / General vocabulary:

dalent (talent)	(talent)
heibio	(past)

Patrymau Iaith / Language Patterns

Mae gan bawb ...	(Everyone has ...)
Beth yw dy dalent di?	(What's your talent?)
Ar ben dy hun	(On your own)
Mwynhau dy gwmni di!	(Enjoy your company!)

© 2025 S4C